# Newyddion Bro Oed-Gyfeillgar

## Diweddariad ar y Caffi Cysylltiad

**Diolch yn fawr iawn** i bawb a ymunodd â ni yn y Caffi Cysylltiad ym Mhafiliwn Pier Penarth ym mis Mehefin.

Croesawodd y brecinio rhwydweithio bobl, grwpiau cymunedol, elusennau, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau sy'n rhannu nod cyffredin, **gwneud y Fro'n lle gwych i dyfu'n hŷn.**

Dyma oedd yr ail flwyddyn i ni gynnal y digwyddiad, ac yn dilyn llwyddiant y Caffi Cysylltiad y llynedd, rhoddwyd gwahoddiadau i aelodau'r Rhwydwaith Bro Oed-Gyfeillgar yn arbennig.

Mae bod yn rhan o'r Rhwydwaith yn ymwneud â mwy na mynychu digwyddiadau. Mae aelodau hefyd yn cael mynediad at gefnogaeth gan y Swyddog Oed-gyfeillgar, sy'n gweithio i gryfhau cysylltiadau a dod â phobl at ei gilydd o amgylch nodau cyffredin. P'un a ydych chi'n chwilio am wybodaeth leol, adnoddau defnyddiol, cyflwyniadau i sefydliadau eraill, neu gymorth gyda phrosiect cymunedol, mae Sian bob amser yn hapus i helpu. Cysylltwch gan ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y troedyn.



**Meithrin Perthnasoedd Ystyrlon**

Cynlluniwyd y Caffi Cysylltiad i sbarduno sgyrsiau newydd a chreu cyfleoedd i gydweithio.

Drwy gydol y bore:

- Cymerodd 40 o fynychwyr ran mewn sgyrsiau rhwydweithio wedi'u paru'n strategol.
- Anogodd ail rownd rwydweithio gyfranogwyr i gwrdd â phobl nad oeddent erioed wedi siarad â nhw o'r blaen a dysgu am y cyfleoedd, y gwasanaethau a'r gweithgareddau maen nhw'n eu cynnig i bobl hŷn.
- Daeth y digwyddiad i ben gyda brecinio gwaith, gan gynnig cyfle i gael trafodaethau mwy anffurfiol, meithrin perthnasoedd ac archwilio partneriaethau ar gyfer y dyfodol.

Gwyddom o'r digwyddiad y llynedd fod y sgyrsiau hyn yn arwain at ganlyniadau go iawn. Adroddodd mynychwyr y llynedd eu bod wedi gwneud o leiaf dau gysylltiad newydd ystyrlon a oedd wedi'u helpu i gyflwyno gweithgareddau newydd i'w grwpiau, cyrraedd cynulleidfaoedd newydd, neu godi ymwybyddiaeth o wasanaethau pwysig sydd ar gael i bobl hŷn.

Byddem wrth ein bodd yn clywed am eich profiad eleni. A wnaethoch chi gysylltiadau newydd? A oes unrhyw gydweithredu cyffrous eisoes wedi dechrau? Os oeddech chi'n bresennol, **cymerwch ychydig funudau i gwblhau ein harolwg adborth byr drwy glicio yma.**

valePSB@valeofglamorgan.gov.uk
www.valepsb.wales
01446 700111

**Cymorth ar gael i'ch cymunedau**

Mae'r mudiad Bro Oed-Gyfeillgar yn cael ei arwain gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Fro a'i gefnogi drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae Hyrwyddwyr Oed-Gyfeillgar yn cynrychioli gwasanaethau cyhoeddus allweddol gan gynnwys iechyd, gwasanaethau brys, addysg a'r sector gwirfoddol. Mewn cyfarfod Hyrwyddwyr diweddar, trafododd yr aelodau y gefnogaeth y gallant ei chynnig yn uniongyrchol i grwpiau cymunedol, sefydliadau a thrigolion hŷn. Os byddai unrhyw un o'r cyfleoedd isod o fudd i'ch grŵp, **cysylltwch â'r person perthnasol.**

**Heddlu De Cymru**

Yr hyn y gallant ei gynnig: Sgyrsiau a chyflwyniadau ar sgamiau, twyll fasnachwyr a diogelwch y cartref a chyngor ar leihau'r risg o fod yn ddioddefwr trosedd.

**Cyswllt: Deborah Elward 📧 Deborah.elward@south-wales.police.uk 📞 07970 164757**

**Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru**

Yr hyn y gallant ei gynnig: Sgyrsiau diogelwch tân ar gyfer grwpiau o bobl hŷn a sefydliadau cymunedol yn ogystal ag archwiliadau cartref a larymau tân os yn briodol.

**Cyswllt: Michael Evans 📧 ms-evans@southwales-fire.gov.uk**

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Yr hyn y gallant ei gynnig: Sesiynau gwybodaeth am frechlynnau gan gynnwys sesiynau holi ac ateb ar gyfer grwpiau o oedolion hŷn (brechlynnau'r ffliw, COVID-19, RSV, yr eryr, a'r brechlyn niwmococol).

**Cyswllt: Eno Usoroh 📧 Eno.Usoroh@wales.nhs.uk**








Mae creu Bro sy'n dda i bobl hyn yn digwydd pan fydd sefydliadau, gwasanaethau, gwirfoddolwyr a thrigolion yn dod at ei gilydd i rannu syniadau, cefnogi ei gilydd a hyrwyddo anghenion a chyfraniadau pobl hŷn. Mae pob sgwrs, partneriaeth a menter gymunedol newydd yn helpu i adeiladu Bro lle gall pobl heneiddio'n dda, cadw mewn cysylltiad, cadw'n actif a pharhau i gyfrannu at y cymunedau sy'n bwysig iddyn nhw.

**Diolch i chi am fod yn rhan o'r Rhwydwaith Bro Oed-Gyfeillgar ac am bopeth rydych chi'n ei wneud i gefnogi pobl hŷn ledled y Fro.** Edrychwn ymlaen at weld y cysylltiadau a wnaed yn y Caffi Cysylltiad eleni yn parhau i dyfu dros y misoedd i ddod.